49616 515

# TANCHWA Y MARDY

*Mercher, Rhagfyr* 23, 1885.

## 80 wedi eu lladd

(*All rights strictly reserved.*)

Cymru anwyl, dyma eto
  Hanes erch yr elfen dan,
Nid oes lawer iawn o amser
  Er pan wnaeth hi rwyg o'r bla'n;
Yn y Mardy—tref anffodus !—
  Mae wylofain mawr yn bod,
Teuluoedd llu yn drist eu cyflwr
  Ac yn isel iawn eu nod.

Ar y drydydd dydd ar hugain
  O fis Rhagfyr, coeliwch fi,
Clywyd swn fel erch ddaeargryn
  Yn cynhyrfu'r creigiau cry';

Salisbury Room

Rhwygwyd ben y pwll yn ddarnau,
Chwalwyd y ffenestri'n fyrdd,
Mor ddynystriol oedd y nwyon
Ddaeth yr adeg hon'on rhydd.

Torf rhuthrasant o'u henedd-dai
A chyfeirient at y fan,
Lle ymdreiddiau'r swn ofnadwy
A'u calonau'n curo'n wan;
Pryder oedd yn gwelwu'n gruddiau
Llawn oedd eu meddyliau hwy
Pawb yn brysio am y cyntaf
I gael gwybod maint eu olwy!

Dacw'r cyrph yn dod i fyny,
O'r fath olwg arnynt sydd,
Pwy all beidio dal heb deimlo'r
Dagrau'n treiglo dros ei rudd;
Gwel'd y mam yn gwyllt gofleidio
Ei anwylfab yn olosg ddu;
Gwraig a'i dagrau'n golchi gruddiau
Duon llosg ei phriod cu.

UNIV. COLL. OF WALES LIBRARY
OC 3642 4459

A'r fath erch olygfa ydoedd,
  Gwel'd y cyrph yn d'od i'r lan,
Ac o gylch y pwll oedd lluoedd,
  'N gwneud y lle yn alar fan;
Corph y tad a'i wyneb gwelw,
  Wedi i losgi bron yn llwyr,
Neb yn medru ei adnabod,
  Ond ei fab ei hun a'i gwyr.

Pwy sydd heddyw yn feddianol
  Ar wir ddawn i draethu am—
Y galaru a'r gruddfanau
  Sydd yn mynwes llawer mam;
Tadau hefyd sydd yn wylo,
  Am eu meibion hwy i'n clyw,
A'r rhai eraill yn och'neidio,
  Am rhyw gar, ond nid yn fyw.

O! 'r oedd llawer un o honynt
  Wedi siarad lawer am
Ddydd Nadolig fel diwrnod
  I ymwel'd a'u tad a'u mam;

Eraill a fwriadent fyned
  I fwynhau eu dydd ynghyd,
Ond eu holl gynlluniau dd'ryswyd,
  Y mae'nt hwy mewn arall fyd !

Duwch daenwyd dros Gwmrhondda,
  A thros sir Forganwg lan,
Aeth y son drwy'r sir fel trydau
  *Am* yr erchyll elfen dan ;
Bu y gwyliau hyn yn wyliau
  Trist, i lawer mam a tad,
*Am* f'od yn y teulu olion
  *Am* y danchwa erch a'i brad.

Dyma rybydd i ni eto
  I ni fod yn barod pan ddaw'r awr
I ni fyn'd heb byth ddychwelyd
  O fro tragwyddoldeb mawr.
Ceisiwn noddfa rhag dialydd,
  Mynwn fan i bwyso'n pen,
Fel y gallwn ddweyd wrth farw,
  Myn'd i'r Nef a wnawn. *Amen.*

LIBRARY